

# CYNGOR CYMUNED Y FALI COMMUNITY COUNCIL

## RHEOLAU SEFYDLOG (ADOLYGWYD 16.03.16)

**Noder:** Lluniwyd Rheolau Sefydlog y Cyngor Cymuned mewn cydberthynas â'r rhai a bennir yng Nghaniellau Cymdeithas Cenedlaethol Cynghorau Lleol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2003 ac mae gan y Clerc gopi y gellir ei ddefnyddio petai angen arweiniad pellach.

### 1. Cyfarfodydd

- Y CCB fydd cyfarfod cyntaf y Cyngor Cymuned ar ôl etholiad
- Y man cyfarfod fydd yr ystafell gyfarfod yn y pafiliwn, Parc Mwd, Fali, neu unrhyw fan arall a ddewisir gan y Cyngor Cymuned o dro i dro
- Cynhelir y cyfarfodydd ar y trydydd Dydd Mercher o bob mis ac eithrio mis Awst
- Bydd y cyfarfodydd yn dechrau am 7.00pm oni nodir yn wahanol gan y clerch
- Os na lwyddir i drafod yr holl faterion ar yr agenda yna fe drafodir y rhai sy'n weddill yn y cyfarfod nesaf

### 2. Y Cyfarfod Blynyddol Statudol

- a) Mewn blwyddyn etholiad cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Cymuned o fewn 14 diwrnod yn dilyn y diwrnod y bydd y cynghorwyr a etholwyd yn dechrau ar eu gwaith
- b) Mewn blwyddyn lle nad oes etholiad cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar y trydydd Dydd Mercher ym mis Mai.

### 3. Cadeirydd y Cyfarfod

Gall person sy'n llywyddu mewn cyfarfod ddefnyddio holl bwerau a dyletswyddau'r Cadeirydd yng nghdestun rhedeg y cyfarfod.

### 4. Swyddog Priodol

Yn yr achosion canlynol, pan fo statud, rheoliad neu orchmyn yn creu swyddogaeth neu ddyletswydd ar swyddog priodol o'r Cyngor, y swyddog hynny fydd y clerch neu swyddog dynodedig:-

I dderbyn datganiadau derbyn swydd  
I dderbyn a chofnodi hysbysiadau datganiadau buddiant mewn cyfarfodydd  
I dderbyn a chadw cynlluniau a dogfennau  
I arwyddo hysbysiadau neu unrhyw ddogfennau eraill ar ran y Cyngor  
I dderbyn copiau o is-ddeddfau a wnaed gan awdurdod lleol arall.  
I ardystio copiau o is-ddeddfau a wneir gan y Cyngor.  
I arwyddo ac anfon y rhybudd i fynyachu cyfarfodydd o'r Cyngor  
I gadw cofnodion priodol ar gyfer pob cyfarfod o'r Cyngor  
Gweithredu fel Swyddog Ariannol Cofrestredig y Cyngor

### 5. Cworwm o'r Cyngor

Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y cyngor fydd pum aelod h.y un rhan o dair o'r holl aelodaeth, pa un bynnag yw'r mwyaf.

Os nad oes cworwm yn bresennol mewn cyfarfod neu os bydd y nifer o gynghorwyr sy'n bresennol (heb gyfrif y rhai hynny a eithriwyd oherwydd iddynt ddatgan buddiant) yn disgyn yn is na'r hyn sydd ei angen ar gyfer cworwm, fe ohirir y cyfarfod ac fe gaiff y materion na chawsant eu trafod eu trafod yn y cyfarfod nesaf neu ar unrhyw ddiwrnod arall a bennir gan y cadeirydd.

Dylid cyfeirio at Reol Sefydlog 48 am gworwm ar gyfer pwyllgor neu is-bwyllgor.

# CYNGOR CYMUNED Y FALI COMMUNITY COUNCIL

## 6. Pleidleisio

Bydd aelodau yn pleidleisio trwy godi llaw, neu trwy roi croes ar bapur os oes o leiaf ddau aelod wedi gofyn am hynny.

Os bydd aelod yn gofyn, bydd y Clerc yn cofnodi enwau yr aelodau a bleidleisiodd ar unrhyw gwestiwn fel y gellir dangos os bu iddynt bleidleisio o blaid neu yn erbyn. Dylid gwneud cais o'r fath cyn symud ymlaen i'r mater nesaf.

(1) Yn unol â (2) a (3) isod gall y Cadeirydd gyflwyno cynnig neu eilio a rhoi pleidlais arferol ar unrhyw fater a roddir i bleidlais, ac os bydd y bleidlais yn gyfartal gall roi pleidlais fwrw boed iddo bleidleisio y tro cyntaf a'i peidio.

(2) Petai'r person sy'n cadeirio'r cyfarfod blynyddol wedi peidio â bod yn aelod o'r cyngor onibai am y ddarpariaeth statudol sy'n sicrhau aelodaeth y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd hyd at ddiwedd eu cyfnod yn y swydd, yna ni all roi pleidlais arferol ar gyfer ethol Cadeirydd.

(3) Wrth ethol Cadeirydd mae'n ofynnol i'r person sy'n cadeirio roi pleidlais fwrw pan fo'r pleidleisiau'n gyfartal.

## 7. Trefn Materion ar yr Agenda

Ym mhob cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor y materion cyntaf fydd:-

- Ethol Cadeirydd y Cyngor
- Derbyng datganiad y Cadeirydd ei fod yn derbyn y swydd, neu os nas derbynnir bryd hynny, i benderfynu pa bryd i'w dderbyn.
- Yn y flwyddyn lle etholir y Cyngor i lenwi unrhyw seddi gwag yn sgil diffyg enwebiadau yn ystod yr etholiad
- Penderfynu pa bryd y dylid derbyn unrhyw ddatganiadau derbyn swydd a Chod Ymddygiad nas derbyniwyd fel sy'n ofynnol trwy gyfraith.
- Ethol Is Gadeirydd y Cyngor
- Penodi cynrychiolwyr ar gyrff allanol
- Penodi pwyllgorau ac is-bwyllgorau
- Ystyried talu unrhyw danysgrifiadau blynyddol
- Fel bo'r angen i archwilio unrhyw weithredoedd a buddsoddiadau ymddiriedolaeth sydd ym meddiant y Cyngor;
- ac o hyn ymlaen i ddilyn y drefn a osodwyd yn Rheol Sefydlog 15

8. Ym mhob cyfarfod ac eithrio Cyfarfod Blynyddol y Cyngor y mater cyntaf fydd i apwyntio Cadeirydd os bydd y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd yn absennol ac i dderbyn y cyfryw ddatganiadau o dderbyn y swydd (os oes rhai) a'r ymgymeriad i gadw at god ymddygiad y Cyngor fel sy'n ofynnol trwy gyfraith, ac os na chânt eu derbyn bryd hynny, i benderfynu pa bryd y gwneir hynny.
9. Yn flynyddol, a dim hwyrach na'r cyfarfod lle penderfynir yr amcangyfrifon am y flwyddyn nesaf, bydd y Cyngor yn adolygu tâl ac amodau gwaith ei staff presennol. Dylid darllen Rheol Sefydlog 38 mewn cydberthynas â'r gofyniad hwn.
10. Yn dilyn cwblhau'r mater cyntaf ac oni bai bod y Cyngor yn penderfynu yn wahanol ar sail brys, trefn yr agenda fydd fel a ganlyn:-
- Darllen ac ystyried y Cofnodion; ac os y cafodd copi ohonynt eu dosbarthu i bob aelod dim hwyrach na'r diwrnod lle anfonwyd y rhybudd i fynychu'r cyfarfod, gellir cymryd eu bod wedi cael eu darllen.
  - Yn dilyn eu hystyried, i gymeradwyo arwyddo'r Cofnodion fel cofnod cywir gan gadeirydd y cyfarfod.

# CYNGOR CYMUNED Y FALI COMMUNITY COUNCIL

- Ymdrin gyda materion fel a ofynnir yn statudol
- Ymdrin gyda materion, os oes rhai, sydd ar ôl o'r cyfarfod diwethaf.
- Derbyn unrhyw gyfathrebiad y mae cadeirydd y cyfarfod yn dymuno ei roi gerbron y Cyngor
- Ateb cwestiynau gan Gynghorwyr
- Derbyn ac ystyried adroddiadau a chofnodion o bwyllgorau
- Derbyn ac ystyried penderfyniadau ac argymhellion yn y drefn y cawsant eu hysbysu
- Rhoi awdurdod i roi sêl ar ddogfenau
- Os bydd angen, i roi awdurdod i dalu anfonebau

## 11. Materion brys

Os oes brys gellir cyflwyno cynnig i newid trefn yr agenda:-

- Trwy gais gan y Cadeirydd neu unrhyw aelod, ac os gwneir y cynnig gan y Cadeirydd gellir ei roi i bleidlais heb eilydd; a
- Gellir ei roi i bleidlais heb drafodaeth.

## 12. Cynigion y gellir eu rhoi gerbron sydd angen Rhybudd

Ac eithrio yr hyn a ddarperir gan y Rheolau Sefydlog hyn, ni ellir penderfynu ar fater oni bai bod y mater mae'n ymwneud ag o wedi ei roi ar yr Agenda gan y Clerc neu mae'r sawl sy'n gwneud y cynnig wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig o'r hyn sydd dan sylw ac wedi anfon y rhybudd i'r Clerc o leiaf 7 diwrnod clir cyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

## 13. Cynigion y gellir eu rhoi gerbron heb Rybudd

Gall cynigion sy'n ymwneud â'r materion canlynol gael eu rhoi gerbron heb rybudd:-

- a) I benodi Cadeirydd i'r cyfarfod
- b) I gywiro'r Cofnodion
- c) I gymeradwyo'r Cofnodion
- d) I newid trefn yr agenda
- e) I symud ymlaen i'r mater nesaf
- f) I ddod a thrafodaeth i ben neu ei gohirio
- g) I gyfeirio mater i bwyllgor
- h) I benodi pwyllgor neu urnhyw aelod arno
- i) I fabwysiadu adroddiad
- j) I awdurdodi rhoi sêl ar ddogfennau
- k) I newid cynnig
- l) I roi rhybudd i dynnu cynnig neu welliant yn ôl
- m) I ymestyn y cyfnod amser a bennir i aelod siarad.
- n) I eithrio'r wasg a'r cyhoedd (gweler Rheol 38 isod)
- o) I ofyn i aelod a gafodd ei enwi am gamymddwyn i adael y cyfarfod neu i beidio â siarad (gweler gorchymyn 33 isod)
- p) I roi sêl bendith y Cyngor pan fo'r Rheolau Sefydlog hyn yn datgan bod angen sêl bendith o'r fath
- q) I atal unrhyw un o'r Rheolau Sefydlog (gweler Rheol 44 isod)
- r) I ohirio'r cyfarfod

## 14. Cwestiynau

Gall aelod ofyn unrhyw gwestiwn i Gadeirydd y Cyngor neu i'r Clerc sy'n ymwneud gyda gwaith y Cyngor, cyn belled â bod 7 diwrnod clir o rybudd yn cael ei roi i'r person y cyfeirir y cwestiwn ato.

- Ni ellir gofyn cwestiynau nad ydynt yn ymwneud â'r mater dan sylw ac eithrio yn ystod y rhan hynny o'r cyfarfod a glustnodwyd ar gyfer cwestiynau.
- Gellir gofyn pob cwestiwn a'i ateb heb drafodaeth.
- Gall person y cyfeiriwyd cwestiwn ato wrthod ei ateb.

# CYNGOR CYMUNED Y FALI COMMUNITY COUNCIL

## 15. Rheolau Trafod

Ni ellir cael trafodaeth ar y Cofnodion ac eithrio am eu cywirdeb. Gellir gwneud cywiriadau i'r Cofnodion trwy roi cynnig gerbron a rhaid iddynt gael eu llofnodi gan y Cadeirydd.

Ni ellir rhoi cynnig neu welliant gerbron oni bai iddo gael ei gynnig a'i eilio, ac oni bod rhybudd priodol wedi ei roi yn barod, fe all y Cadeirydd os bydd yn dymuno ofyn am gyflwyno hyn yn ysgrifenedig iddo cyn y caiff ei drafod ymhellach neu ei roi gerbron y cyfarfod.

Nid yw gwelliant yn negydu y cynnig sydd gerbron y Cyngor.

Os bydd y gwelliant yn llwyddo, bydd y cynnig fel a ddiwygiwyd yn disodli'r cynnig gwreiddiol a hwn fydd y cynnig y gellir cyflwyno unrhyw welliant pellach iddo.

Pan fo cynnig yn cael ei drafod, ni ellir rhoi cynnig arall gerbron ac eithrio'r canlynol:-

- I gyflwyno gwelliant i'r cynnig
- I symud ymlaen i'r mater nesaf
- I ohirio'r drafodaeth
- I roi'r cynnig i bleidlais
- Nad yw aelod a enwyd yn cael siarad ymhellach
- Bod aelod a enwyd yn gorfod gadael y cyfarfod
- Bod y cynnig yn cael ei gyfeirio i bwyllgor
- I eithrio'r cyhoedd a'r wasg
- I ohirio'r cyfarfod

Ni ellir trafod penderfyniad y Cadeirydd ar fater o drefn neu ar dderbynioldeb eglurhad personol.

Dylai aelodau gyfarch y Cadeirydd. Os bydd dau neu fwy o aelodau eisiau siarad, bydd y Cadeirydd yn penderfynu pwy fydd yn cael siarad gyntaf.

Pa bryd bynnag y bydd y Cadeirydd yn siarad yn ystod trafodaeth bydd pob aelod arall yn ddistaw.

## 16. Dod a thrafodaeth i ben

Ar ddiwedd unrhyw araith gall aelod, heb ragymadroddi gynnig "bod y cynnig yn cael ei roi i bleidlais", "bod y drafodaeth yn cael ei gohirio" neu "bod y Cyngor yn cael ei ohirio". Os yw'r cynnig yn cael ei eilio bydd y Cadeirydd yn rhoi'r cynnig gerbron, ond mewn perthynas â'r cynnig "I roi'r mater i bleidlais" ni wneir hynny oni bai ei fod o'r farn bod y mater gerbron y Cyngor wedi cael ei drafod yn ddigonol. Os bydd y cynnig "I roi'r cynnig i bleidlais" yn llwyddo, bydd yn gofyn i'r cynigydd ildio ei hawl i ymateb gan roi'r cynnig i bleidlais yn syth ar ôl ildio'r hawl. Ni fydd gohirio trafodaeth neu'r Cyngor yn effeithio ar hawl y cynigydd i ymateb pan fydd y drafodaeth neu'r Cyngor yn ail-ddechrau.

## 17. Ymddygiad Afreolus

- a) Rhaid i bob aelod barchu y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor
- b) Ni oddefir aelod mewn cyfarfod sy'n gyson yn anwybyddu penderfyniad y Cadeirydd, yn bod yn rhwystr bwriadol i'r hyn sydd dan sylw, neu'n ymddwyn yn afreolaidd, yn sarhaus, yn amrhodol neu mewn unrhyw fodd a allai ddwyn anfri ar y Cyngor.
- c) Os bydd aelod ym marn y Cadeirydd wedi mynd yn groes i ddarpariaethau paragraff (b) o'r Rheolau hyn, gall y Cadeirydd fynegi y farn hon i'r Cyngor ac yn dilyn hyn gall unrhyw aelod gynnig na ddylid parhau i roi gwrandawriad i'r aelod hynny neu bod yr aelod hyn yn gadael y cyfarfod, ac os caiff y cynnig ei eilio, caiff y mater ei roi gerbron yn syth ac heb drafodaeth. Os bydd aelod yn rhesymol gredu bod aelod arall yn torri'r cod ymddygiad, mae dyletswydd ar yr aelod hynny i gyfleu hyn i'r Bwrdd Safonau (Lloegr) neu i'r Comisiynydd Lleol (Cymru).

# CYNGOR CYMUNED Y FALI COMMUNITY COUNCIL

- d) Os nad yw'r ddau gynnig a grybwyllwyd ym mharagraff (c) yn tycio, gall y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod neu gymryd unrhyw gamau pellach rhesymol i'w gweithredu.

## 18. Yr Hawl i Ymateb

Mae gan y sawl sy'n gwneud cynnig yr hawl i ymateb yn syth cyn rhoi'r cynnig i bleidlais. Os cynnigir gwelliant mae hawl gan y sawl sy'n cynnig y gwelliant i ymateb yn syth a chyn pleidleisio ar y gwelliant. Ni all aelod sy'n defnyddio ei hawl i ymateb gyflwyno mater newydd. Ar ôl defnyddio'r hawl i ymateb fe bleidleisir ar y mater heb drafodaeth bellach.

## 19. Newid Cynnig

Gall aelod gyda chydysyniad ei eilydd, gynnig gwelliannau i'w gynnig ei hun.

## 20. Rhoi Penderfyniad Blaenorol o'r Neilltu

- a) Ni ellir rhoi penderfyniad y Cyngor o'r neilltu (boed yn un cadarnhaol neu negyddol) o fewn chwe mis ac eithrio trwy gynnig arbennig ysgrifenedig sy'n dwyn enw o leiaf 5 aelod or Cyngor, neu trwy gynnig a wnaed o ganlyniad i adroddiad neu argymhelliad pwyllgor.
- b) Ar ôl ymdrin â chynnig arbennig neu unrhyw gynnig arall a wnaed o dan ddarpariaethau paragraff (a) o'r Rheolau hyn, ni ellir gwneud cynnig tebyg am chwe mis arall.

## 21. Pleidleisio ar Benodiadau

Pan fo mwy nac un person wedi eu henwebu am unrhyw swydd wag ar y Cyngor a lle nad oes mwyafrif clir o blaid un person ar ôl pleidlais, fe fydd enw'r person a gafodd y nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr ac fe gynhelir pleidlais arall hyd nes y bydd un person wedi cael mwyafrif y pleidleisiau.

## 22. Trafodaethau a Chynigion sy'n Effeithio ar Staff y Cyngor

Os cyfyd cwestiwn mewn cyfarfod sy'n ymwneud â phenodiad, ymddygiad, dyrchafiad, diswyddiad, cyflog neu amodau gwaith unrhyw berson a gyflogir gan y Cyngor, ni chaiff ei ystyried hyd nes y bydd y Cyngor neu bwyllgor (fel bo'r achos) wedi penderfynu os bydd y wasg a'r cyhoedd yn cael bod yn bresnol a'i peidio. (Gweler Rheol Sefydlog Rhif. 38.)

## 23. Cynigion ar Wariant

Bydd unrhyw gynnig a gaiff ei roi gerbron a'i eilio (ac eithrio o ganlyniad i argymhelliad y Pwyllgor Cyllid neu unrhyw bwyllgor arall ar ôl sêl bendith y Pwyllgor Cyllid) a phetai'n llwyddiannus ac a fyddai ym marn y Cadeirydd, yn arwain at gynydd sylweddol mewn gwariant ar unrhyw wasanaeth sydd o dan reolaeth y Cyngor neu a fyddai'n lleihau'r refeniw sydd ar gael i unrhyw bwyllgor, neu a fyddai'n golygu gwariant cyfalaf, yn cael ei ohirio heb drafodaeth i gyfarfod arferol nesaf y Cyngor, a bydd unrhyw bwyllgor a effeithir arno yn ystyried os hoffai adrodd arno (a bydd y Pwyllgor Cyllid yn adrodd ar agweddau ariannol y mater).

## 24. Gwariant

**Bydd Anfonebau sydd angen eu talu yn cael eu hawdurdodi gan y Cyngor a'u harwyddo gan dri neu ddau aelod a'r cler.**

## 25. Selio Dogfennau

Ni chaiff dogfen ei selio ar ran y Cyngor oni bai bod ei selio wedi cael ei hawdurdodi gan benderfyniad.

# CYNGOR CYMUNED Y FALI COMMUNITY COUNCIL

Gall unrhyw ddau aelod o'r Cyngor a enwir mewn cynnig a roddir gerbron o dan ddarpariaethau paragraff (a) o'r Rheolau hyn, selio ar ran y Cyngor unrhyw ddogfen sy'n ofynnol o dan y gyfraith i gael ei selio.

## 26. Cyfarfod Arbennig

Gall cadeirydd pwyllgor neu Gadeirydd y Cyngor alw cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor hynny ar unrhyw amser. Yn ogystal gellir galw cyfarfod arbennig ar gais ysgrifenedig gan ddim llai na chwarter o aelodau'r pwyllgor. Bydd rhybudd y cyfarfod yn nodi'r materion i'w trafod yn y cyfarfod arbennig ac ni ellir ymdrin ag unrhyw faterion eraill yn y cyfarfod hwn.

## 27. Pwyllgorau ac Is Bwyllgorau

Yn ei Gyfarfod Blynyddol gall y Cyngor apwyntio pwyllgorau sefydlog ac fe all ar unrhyw amser arall apwyntio pwyllgorau eraill fel bo'r angen yn ddibynnol ar unrhyw ddarpariaeth statudol gan gynnwys:-

- Peidio â phenodi unrhyw aelod o bwyllgor i ddal swydd a fyddai'n mynd y tu hwnt i'r Cyfarfod Blynyddol nesaf.
- Yr hawl i benodi pobl ar unrhyw Bwyllgor nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor; ac
- Yn ddibynnol ar ddarpariaethau Rheol Sefydlog 20 uchod i ddiddymu neu i newid aelodaeth pwyllgor.

Bydd y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd yn rhinwedd eu swyddi yn aelodau o bob pwyllgor a chyda phleidlais.

Bydd pob pwyllgor yn ei gyfarfod cyntaf a chyn dechrau ar yr agenda yn ethol Cadeirydd ac fe all ethol Is Gadeirydd a fydd yn dal y swydd tan Gyfarfod Blynyddol nesaf y cyngor.

Bydd Cadeirydd ac Is Gadeirydd y Cyngor yn aelodau o bob pwyllgor a apwyntiwyd oni bai eu bod yn datgan nad ydynt yn dymuno gwasanaethu arnynt.

Y cworwm ar gyfer pwyllgor neu is bwyllgor fydd hanner ei aelodaeth ac eithrio pan fo'r Cyngor yn penderfynu yn wahanol.

Bydd y Rheolau Sefydlog ar reolau trafod (ac eithrio y rhai hynny sy'n ymwneud â sefyll a siarad ar fwy nac un achlysur) a'r Rheolau Sefydlog ar fuddiant aelodau mewn contractau ac mewn materion eraill yn berthnasol i gyfarfodydd pwyllgorau ac is bwyllgorau.

## 28. Pleidleisio mewn Pwyllgorau

Bydd aelodau pwyllgorau ac is-bwyllgorau sydd â'r hawl i bleidleisio yn gwneud hynny trwy godi llaw, neu, os oes o leiaf ddau aelod yn gofyn, trwy roi croes ar bapur.

Os bydd pleidlais yn gyfartal bydd gan Gadeirydd pwyllgor ac is bwyllgor ail bleidlais, sef pleidlais fwrw.

## 29. Presenoldeb rhai nad ydynt yn aelodau o bwyllgorau mewn cyfarfodydd pwyllgor

Bydd aelod sydd wedi rhoi cynnig gerbron ac a gafodd ei gyfeirio i unrhyw bwyllgor nad yw ef yn aelod ohono, yn cael egluro ei gynnig i'r pwyllgor ond ni chaiff bleidleisio arno.

## 30. Cyfrifon a Datganiad Ariannol

- Bydd pob anfoneb sydd angen ei thalu ac unrhyw hawliad yn erbyn y Cyngor yn cael eu trafod gan y Cyngor.

# CYNGOR CYMUNED Y FALI COMMUNITY COUNCIL

- Pan bod angen gwneud taliad cyn iddo gael ei awdurdodi gan y Cyngor bydd y Clerc yn penderfynu os yw'n gywir ac os oes brys i'w dalu a hynny yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

Bydd y Clerc yn darparu datganiad o'r cyfrifon i bob aelod yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

## 31. Amcangyfrifon / Praesept

- Bydd y cyngor yn cymeradwyo amcangyfrifion ysgrifenedig ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod yn ei gyfarfod cyn diwedd mis Rhagfyr.
- Bydd unrhyw bwyllgor sy'n dymuno achosi gwariant yn rhoi amcangyfrif ysgrifenedig i'r Clerc ddim hwyrach na mis Rhagfyr, o'r gwariant a agrymhellir ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## 32. Buddiant

Os bydd aelod gyda buddiant personol fel a ddiffinir gan y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor yna dylid datgan y buddiant a bydd angen i'r aelod benderfynu os yw am aros neu adael.

33. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Clerc i lunio a chadw cofrestr buddiant aelodau trwy gytundeb gyda Swyddog Monitro yr Awdurdod Lleol ac/neu fel a ofynnir yn gyfreithiol.

34. Os bydd ymgeisydd am unrhyw swydd efo'r Cyngor yn gwybod ei fod yn perthyn i unrhyw aelod o'r Cyngor neu unrhyw un sy'n dal swydd efo'r Cyngor yna bydd ef a'r person y mae'n perthyn iddo yn datgelu y berthynas yn ysgrifenedig i'r Clerc. Bydd ymgeisydd sy'n methu â gwneud hyn yn cael ei anghymwyso rhag cael ei benodi, a phetai'n cael ei benodi, ei ddiswyddo heb rybudd. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Cyngor neu i'r pwyllgor priodol am unrhyw ddatgeliad o'r fath. Pan ddatgelir perthynas gydag aelod bydd Rheolau Sefydlog 33 a 34 yn weithredol fel bo'n briodol.

Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i bob ymgeisydd beth yw cynnwys Rheol Sefydlog 34.

## 35. Canfasio Aelodau ac Argymhellion gan Aelodau

Bydd canfasio aelodau o'r Cyngor neu o unrhyw bwyllgor, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar gyfer penodiad efo'r Cyngor yn anghymwyso'r ymgeisydd rhag cael ei benodi. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i bob ymgeisydd beth yw cynnwys yr is-baragraff hwn o'r Rheol Sefydlog hwn.

Ni all aelod o'r Cyngor neu unrhyw bwyllgor bledio ar ran unrhyw berson ar gyfer penodiad i'r Cyngor neu i argymhell unrhyw berson ar gyfer ei benodi neu ei ddirchafu. Fodd bynnag, gall unrhyw aelod ddarparu geirada ysgrifenedig o ran gallu, profiad neu gymeriad ymgeisydd ar gyfer ei gyflwyno i'r Cyngor gyda'r cais am benodiad.

Bydd Rheol Sefydlog 35 yn weithredol ar gyfer tendrau yn union fel bo'r person sy'n cyflwyno'r tendr yn ymgeisydd ar gyfer penodiad.

## 36. Archwilio Dogfennau

Gall aelod i'r diben o gyflawni ei swydd fel y cyfryw (ond nid fel arall) archwilio unrhyw ddogfen ym meddiant y Cyngor neu bwyllgor, ac os oes copiau ar gael, fe all trwy wneud cais, ofyn am gopi ohonynt.

Bydd yr holl gofnodion a gedwir gan y Cyngor ac unrhyw bwyllgor ar gael i'w harchwilio gan unrhyw aelod o'r Cyngor.

## 37. Gweithgareddau heb eu Hawdurdodi

# CYNGOR CYMUNED Y FALI COMMUNITY COUNCIL

Ni chaiff aelod o'r Cyngor neu o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor wneud y canlynol yn enw neu ar ran y Cyngor:-

- Archwilio unrhyw diroedd neu eiddo y mae gan y Cyngor hawl neu ddyletswydd i'w harchwilio; neu
- Roi gorchymyn, cyfarwyddyd neu gyfarwyddiadau oni bai ei fod wedi cael ei awdurdodi i wneud hynny gan y Cyngor neu'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor perthnasol.

## 38. Caniatau i'r Cyhoedd a'r Wasg fynychu Cyfarfodydd

Gall y cyhoedd a'r wasg fynychu holl gyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau ac is-bwyllgorau, ond fodd bynnag fe ellir eu heithrio dros dros trwy'r penderfyniadau canlynol: -  
"Oherwydd natur [arbennig] [cyfrinachol] y mater dan sylw, doeth fyddai er budd y cyhoedd petai'r wasg yn gadael am gyfnod a gofynnir iddynt wneud hynny"

Bydd y Cyngor yn datgan y rhesymau arbennig dros eu heithrio.

Ymhob cyfarfod o'r Cyngor gall y Cadeirydd trwy ei ddisgresiwn ei hun ac ar amser sy'n gyfleus ar yr agenda, gymryd toriad yn y gweithrediadau i ganiatau i unrhyw aelod o'r cyhoedd i anerch y cyfarfod mewn perthynas â'r hyn sy'n gael ei drafod yn y cyfarfod.

Bydd y Clerc yn darparu cyfleusterau rhesymol i'r wasg i'w galluogi i adrodd ar y gweithrediadau hynny lle mae ganddynt yr hawl i fod yn bresennol. Ni chaniateir tynnu lluniau na recordio'r hyn a ddywedir naill a'i mewn sain neu ar fideo, heb ganiatad penodol y Cyngor.

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y gweithrediadau mewn unrhyw gyfarfod, gall y Cadeirydd, ar ôl rhoi rhybudd, orchymyn bod y person yn gadael y cyfarfod gan gymryd toriad hyd nes y gellir cael trefn unwaith eto.

## 39. Materion Cyfrinachol

- 1) Ni chaiff aelod o'r Cyngor neu o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor ddatgelu i unrhyw berson nad yw'n aelod o'r Cyngor unrhyw fater a ddynodwyd yn gyfrinachol gan y Cyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor yn ôl yr achos.
- 2) Bydd y Cyngor yn tynnu unrhyw aelod sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau paragraff (1) o'r Rheolau Sefydlog hyn oddi ar unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o'r Cyngor.

## 40. Cysylltiad gyda Chynghorwyr Sir

Bydd y rhybudd a'r Agenda ar gyfer pob cyfarfod ynghyd â gwahoddiad i fynychu yn cael eu hanfon at y Cynghorydd Sir ar gyfer y dosbarth neu'r ward priodol.

## 41. Ceisiadau Cynllunio

Bydd y Clerc yn cyfeirio pob cais cynllunio a ddaw i law i Gadeirydd/Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio neu yn absenoldeb y Cadeirydd i'r Is Gadeirydd o fewn 48 awr o'u cael.

## 42. Materion Ariannol

Bydd y Cyngor yn ystyried a chymeradwyo y Rheoliadau Ariannol a lunir gan y Clerc yn rhinwedd ei swydd fel y Swyddog Ariannol Cyfrifol dynodedig.

- 1) Bydd y Rheoliadau hyn yn cynnwys manylion manwl ar gyfer y canlynol:
  - a) Cadw cofnod o'r cyfrifon a systemau o reolaeth mewnol;
  - b) Aeseu'r risgiau mae'r Cyngor yn eu hwynebu a sut y cânt eu rheoli;
  - c) Y gwaith a wneir gan yr Archwilydd Mewnol yn cynnwys cael adroddiadau rheolaidd gan yr Archwilydd Mewnol a hynny o leiaf unwaith y flwyddyn;
  - d) Galluogi cynghorwyr ac etholwyr lleol i archwilio yr adroddiadau ariannol
  - e) Polisiau caffael (yn amodol ar reol sefydlog (2) isod gan gynnwys pennu gwerthoedd ar gyfer gweithdrefnau gwahanol pan fydd contract gyda gwerth tybiedig o lai na £50,000.



# CYNGOR CYMUNED Y FALI COMMUNITY COUNCIL

- 2) Bydd unrhyw gontract arfaethedig ar gyfer cyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau a gwaith i'w gyflawni sydd gyda gwerth a amcangyfrifwyd i fod dros £50,000 yn cael ei gaffael trwy dendr ffurfiol fel â grynhoir yn (3) isod.
- 3) Bydd unrhyw broses tendro ffurfiol yn cynnwys y camau canlynol:
  - a) Hysbysiad cyhoeddus o'r bwriad i gynnig contract i'w roi mewn papur newydd lleol;
  - b) Bydd manyleb o'r nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau a'r gwaith i'w gyflawni yn cael ei pharatoi;
  - c) Rhaid anfon tendrau mewn amlen wedi ei selio at y Clerc o fewn yr amser a'r dyddiad a nodwyd;
  - d) Bydd y tendrau a gyflwynwyd yn cael eu hagor ar ôl y dyddiad a'r amser a nodwyd, gan y Clerc ac o leiaf un aelod o'r Cyngor;
  - e) Caiff y tendrau eu hasesu gan adrodd arnynt i gyfarfod priodol o'r Cyngor neu Bwyllgor.
- 4) Nid oes gofyniad ar y Cyngor neu unrhyw Bwyllgor i dderbyn y tendr, amcanbris neu ddyfynbris isaf. Bydd unrhyw hysbysiad ar gyfer tendr yn cynnwys cyfeiriad at Reolau Sefydlog 34 & 35 ynghylch gweithgaredd amrhiodol.
- 5) Bydd Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn destun adolygiad rheolaidd, sef o leiaf unwaith pob dwy flynedd.

## **43. Cod Ymddygiad mewn perthynas â Chwynion**

Os bydd Cynghorydd yn torri'r cod ymddygiad neu os honnir ei fod wedi ei dorri, yna rhaid cyfleu hyn i Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a fydd yn rhoi cyngor a chyfarwyddwyd ar sut y dylid ymdrin â'r mater.

## **44. Amrywio, Dirymu neu Atal y Rheolau Sefydlog**

Gall unrhyw Reol Sefydlog neu'r cwbl ac eithrio y rhai hynny mewn print trwm gael eu hatal trwy benderfyniad penodol ynghylch unrhyw eitem ar yr agenda.

Bydd cynnig sydd wedi cael ei roi gerbron a'i eilio i ychwanegu, amrywio neu ddirymu Rheol Sefydlog yn barhaol, yn cael ei ohirio heb ei drafod tan gyfarfod arferol nesaf y Cyngor.

## **45. Rhoi'r Rheolau Sefydlog i'r Aelodau**

Bydd y Clerc yn rhoi copi o'r Rheolau Sefydlog hyn i bob aelod yn syth ar ôl iddo gael datganiad gan yr aelod ei fod yn derbyn y swydd ynghyd â datganiad ysgrifenedig ganddo i barchu'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor.